

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog Harbour Consultative Committee*

*30 Medi/September 2009*

## *Adroddiad yr Uned Forwrol - Maritime Unit Report*

### *1 - Morwriaeth / Navigation*

*1.1* Archwiliwyd holl Gymhorthion Mordwyo Harbwr Porthmadog gan swyddog Tŷ'r Drindod ar yr 10fed Awst 2009. Adroddwyd gan y swyddog bod rhan fwyaf o gymhorthion mordwyo a fu yn arwain morwyr i'r harbwr mewn cyflwr derbyniol oni bai am gymhorthion Rhifau 1; 8; 13; 15 ac 17eg.

<b>Lleoliad - Location</b>	<b>Rhif / No</b>	<b>Cymhorthydd Mordwyo Aid To Navigation</b>	<b>Math Type</b>	<b>Nam Defect</b>
Llanbedrog	N02859	Llanbedrog Sewer Outfall	Twr di olau Unlighted Beacon	Angen Peintio Requires Painting
P0326	N02861	Sewer Outfall Harbour No.4	Twr Golau Lighted Beacon	Angen Peintio Requires Painting
Pwllheli	N13358	Starcoast Outfall	Bwi Golau Lighted Buoy	Dim Golau Light Extinguished
Pwllheli	N13468	Harbwr Pwllheli Harbour	Bwi Golau Lighted Buoy	Dim Golau Light Extinguished
Porthmadog	N02875	Rh-No.1	Bwi Golau Lighted Buoy	Angen Peintio Requires Painting
Porthmadog	N02871	Rh-No.8	Bwi Golau Lighted Buoy	Angen Peintio Requires Painting
Porthmadog	N02881	Rh-No.13	Bwi Heb Olau Unlighted Buoy	Angen Adnewyddu Renewal Required
Porthmadog	N02882	Rh-No.15	Bwi Heb Olau Unlighted Buoy	Angen Peintio Requires Painting
Porthmadog	N02883	Rh-No.17	Bwi Heb Olau Unlighted Buoy	Ddim ar Safle Missing From Station
Abermaw	N02893	Clwyd Abermaw Barmouth Perch	Twr Golau Lighted Beacon	Angen Adnewyddu Leaning and Requires Painting
Abermaw	N02897	Rheilffordd Abermaw Barmouth Railway	Twr Golau Lighted Beacon	Dim Golau Light Extinguished

*1.2* Oherwydd newidiadau cyson yn y sianel fordwyo eleni, fe roedd angen ail leoli nifer o gymhorthion mordwyo. Yn anffodus fel collwyd y Bwi Tramwyo (Fairway) ar ddechrau mis Mai, ac oherwydd y tywydd anffafriol, nid oedd yn bosibl ail leoli'r bwi newydd tan y 4ydd Fehefin. Mae yn debygol bod y bwi wedi suddo gan na fod y bwi wedi dod i'r lan hyd yma.

- 1.3** Yn unol â'r arferiad, fe roedd yna wyth llusern ar y cymhorthion mordwyo pwysicaf eleni. O ganlyniad colli'r Bwi Tramwyo, fe roedd rhaid pwrcasu llusern newydd, ac fe roedd y gost hon yn **£960.00**. Yn ychwanegol i hyn, fe roedd angen pwrcasu llusern ar gyfer cymhorthydd mordwyo Borth y Gest. Roedd cost un llusern yn **£275.00**. Yn anffodus fe achoswyd niwed i'r cymhorthydd newydd yn fuan wedi ei osod ac fe gollwyd y golau. Roedd hyn yn golygu cost **£275.00** yn ychwanegol.
- 1.4** Fe fydd yr Harbwr Feistr a Swyddog Morwrol Harbyrau yn paratoi rhaglen gynhwysfawr ar gyfer cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo yn ystod yr hydref/gaeaf ac fe fydd yn anorfod bod yr holl waith cynnal a chadw wedi ei gwblhau cyn Gŵyl y Nadolig. Fe fydd yr Harbwr feistr yn dosbarthu'r rhaglen yn cyfarfod.
- 1.5** Mae lleoliadau a nodweddion presennol llusernau Harbwr Porthmadog fel yr hyn a fu yn ymddangos yn y cynllun atodol.

## **2 - Is ddeddfau Harbwr / Harbour By laws**

- 2.1** Mae Is ddeddfau drafft ar gyfer harbwr Porthmadog eisoes wedi eu trafod yn y Pwyllgor Ymgynghorol. Yn unol ag adroddiad a gyflwynwyd ger bron Aelodau ym mis Mawrth 2009, mae addasiadau wedi eu hymgorffori yn unol â'r sylwadau a gyflwynwyd gan yr Adran Drafnidiaeth.
- 2.2** Unwaith eto, a hyn oherwydd diffyg capasiti, mae llithriad bychan yn y rhaglen ac felly, nid yw'r ail fersiwn o'r Is Ddeddfau drafft wedi ei anfon at yr Adran Drafnidiaeth. Sech hyn, rhagwelir bydd y fersiwn derfynol yn cael ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor hwn yn y cyfarfod cyntaf yn 2010.
- 2.3** Mae Cyngor Tref Porthmadog wedi cyflwyno sylwadau ar yr ohebiaeth a fu wedi ei dderbyn gan yr RYA sydd yn gofyn bod y Cyngor yn ystyried diddymu Is ddeddf 42 (2) (a) a (b). Yn eu gohebiaeth, mae'r Cyngor Tref o'r farn bod angen cynwys Is ddeddf 42 (1) ond yn anffodus nid ydynt yn cyfeirio at Is Ddeddf 42 (2) (a) ac (b). Fe ofynnir am drafodaeth pellach am hyn gan geisio barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol.
- 2.4** Mae Is-ddeddf drafft 42 (2) (a) ac (b) fel a ganlyn;
- 42 (2) Dylai meist'r, wrth ddefnyddio ei lestr er mwyn tynnu sgiwr dwr neu rywun sy'n awyrennu dwr, gael ar fwrdd ei lestr o leiaf un arall a fedrai gymryd gofal o'r llestr a rhoi hynny o gymorth y gellid yn rhesymol ei angen wrth dynnu ac adfer y sgiwr dwr a dylai gludo:-
- (a) ar gyfer pob un sydd ar y bwrdd, siaced achub a wnaed yn unol â'r Fanyleb Safon Brydeinig briodol neu gymorth hynofedd personol o fath a gymeradwyir gan Fanyleb yr Adeiladwyr Llongau a Chychod.

- (b) Dwy fflach argyfwng a ddelir â llaw, Radio VHF neu ddull amgen o gysylltu â'r lan, dull arall o gael y llestr i symud, dyfais gwagio dŵr, a diffoddydd tân.

### **3 – Datblygiadau Clwb Hwyllo**

- 3.1** Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor diwethaf, mae'r Uned Forwrol wedi derbyn cais gan Glwb Hwyllo Madog yn gofyn caniatâd i ymestyn y cyfleusterau pontŵn presennol. Gan fod y llithrfa bresennol wedi caei ei ymestyn, a hyn ar gost sylweddol er hwyluso cyfnod ble gellir lansio cychod, nid oeddem yn rhagweld byddai yn bosibl ymestyn y pontŵn.
- 3.2** Yn ystod tymor yr haf, yr ydym wedi bod yn astudio'r effaith byddai lleoli pontŵn gyferbyn ar lithrfa yn ei gael ar gychod sydd yn lansio. Gan na fod yn bosibl lansio cychod ar y trai, y canlyniad yw na fyddai ymestyn y pontŵn yn effeithio yn niweidiol ar ddefnydd y llithrfa ac felly, fe fydd y cais yn cael ei anfon ymlaen at sylw'r Uned Eiddo.
- 3.3** Pe byddai gosod pontwn yn cael eu caniatáu, a hyn drwy broses cynllunio ac ati, fe fydd yn anorfod sicrhau na fyddai lleoli'r pontwn yn cael unrhyw effaith ar lif y dŵr, ac na fod y pontwn yn cael unrhyw effaith ar y ffordd mae cychod sydd ar angorfeydd cyfagos yn gorffwys ar eu hangorfa.

### **4 – Ystadegau Harbwr / Harbour Statistics**

- 4.1** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna **892** o Fadau Dwr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn 2009, ac mae hyn yn cymharu â **871** yn 2008, sef **21** yn fwy eleni. Cofrestrwyd 1169 cwch pŵer, gyda rhan helaeth, sef 714, yn cofrestru drwy'r swyddfa Forwrol. Fe nodi'r bod nifer o Fadau Dwr Personol a Chychod Pŵer a fu wedi cofrestru yn swyddfa Harbwr Porthmadog ac ar draeth y Graig Ddu ychydig uwch eleni mewn cymhariaeth a'r nifer a fu wedi cofrestru yn **2008**. Mae nifer fawr o gwsmeriaid yn cofrestru drwy'r post a diau fod y sefyllfa economaidd a phris tanwydd yn cael effaith sylweddol ar ddefnydd cychod pŵer a Badau Dwr Personol ar yr arfordir.
- 4.2** Fel a nodi'r yn y tabl, dim ond **26** o gychod pŵer a gofrestrwyd yn harbwr Porthmadog, gyda **28** o gychod pŵer yn cofrestru ar draeth y Graig Ddu. Mae ffi cofrestru Cychod Pŵer a Badau Dwr Personol yn parhau fel y llynedd sef **£15.00** drwy'r post, neu **£20.00** ar y traeth, neu yn swyddfa'r harbwr. Mae ffi lansio yn **£12.00** y dydd neu **£130.00** am y tymor.
- 4.3** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna **180** o gychod pleser wedi angori yn yr harbwr eleni. Golygai hyn bod 75% o'r angorfeydd wedi eu llogi ac mae 26% wedi eu llogi gan drigolion sydd yn byw yn llawn amser yng Ngwynedd gyda 74% wedi eu llogi gan rai sydd yn breswyl tu allan y sir.

4.3 Mae angen nodi bod cyfanswm angorfeydd harbwr Porthmadog wedi lleihau dros y deuddeg mis diwethaf. Oherwydd cyfyngiad yn ardal Borth y Gest, fe fydd angen codi ac ail leoli nifer o angorfeydd gan fod rhai angorfeydd yn amharu ar fordwyo yn enwedig gyda'r nos.

## 5.0 Cyllidebau / Budgets

5.1 Atodir er gwybodaeth Aelodau, adroddiad terfynol cyllideb yr harbwr am y flwyddyn ariannol **2008/09**, a hefyd cyllideb refeniw a thargedau incwm yr harbyrau am y flwyddyn ariannol **2009/10**.

5.2 Oherwydd y tywydd anffafriol iawn yn ystod yr haf eleni, mae yn debygol na fydd rhai penawdau incwm yr Uned Forwrol yn cyrraedd eu targed incwm yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Fe fydd angen bod yn wyliadwrus iawn yn ystod y misoedd nesaf er sicrhau na fydd y gwasanaeth yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb. Mae'r Swyddog Morwrol Harbyrau, gyda chymorth yr Harbwr Feistr yn darparu rhaglen waith cynnal a chadw ar gyfer yr hydref, er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant yn harbwr Porthmadog.

5.3 Mae pryder ynglŷn â tharged incwm harbwr Porthmadog eleni. Fe fydd Aelodau yn nodi yn yr atodiadau bod y targed incwm am y flwyddyn ariannol gyfredol, sef **£80,350**. Mae incwm harbwr Porthmadog hyd yma wedi cyrraedd **£72,289**, sef **£8,061** yn is na tharged. Ni ragwelir bydd yna ychwanegiad sylweddol yn yr incwm rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth 2010.

## 6 Strwythur Staffio Morwrol / Maritime Staffing Structure

6.1 Fel bydd Aelodau yn ymwybodol, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf roedd yna newidiadau staff (dros dro) yn Harbwr Porthmadog, Pwllheli ac Aberdyfi. Er fu i'r secondiadau gael eu hystyngiadau, mae cyfnod y secondiad cyfredol yn dod i ben ar y 30ain Fedi 2009, ac fe fydd angen ystyried sut bydd yr Uned Forwrol yn ymdopi gyda newidiadau a hyn yn sgil toriad yng nghyllideb staff harbwr Pwllheli.

6.2 Oherwydd sefyllfa ariannol argyfyngus y Cyngor, mae'r Uned Forwrol wedi gorfod adnabod arbedion, ac yn sgil newidiadau trefn rheoli Hafan Pwllheli, fe roedd angen torri cyllideb staffio harbwr Mhwllheli sydd yn golygu bod cyllideb ar gyfer cyflog Harbwr Feistr Pwllheli wedi gostwng 50%. Gan na fod yna benderfyniad wedi ei gadarnhau ynglŷn ag unrhyw barhad secondiad hyd yma, fe fydd y Swyddog Morwrol yn diweddarau Aelodau yn y cyfarfod.

## ***7.0 Cynnal a Chadw Angorfeydd***

- 7.1** Yn ystod misoedd y gaeaf, fe fydd y Swyddog Morwrol Harbyrau, gyda chymorth yr Harbwr Feistr, yn cynnal archwiliad ar y nifer angorfeydd yn ardal Borth y Gest. Pe na fydd yr angorfa wedi ei ddefnyddio yn 2008, yna fe fydd perchennog yr angorfa yn derbyn cyfarwyddyd i'w glirio. Pe na fydd perchennog yr angorfa wedi ei adnabod cyn gŵyl y Nadolig, yna fe fydd swyddogion yr harbwr yn clirio'r angorfa.
- 7.2** Yn unol â'r drefn arferol, fe fydd holl angorion harbwr Porthmadog yn cael eu harchwilio a'u cynnal a chadw gan y contractwr penodedig yn ystod mis Ionawr 2010. Mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi yn sylweddol mewn cynnal a chadw ac adnewyddu cadwyni yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, ac ni ragwelir bydd angen buddsoddiad sylweddol yn 2009/10.